



Gwirio pobl sydd wedi eu cael yn euog o drosedd



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Goleg Caerdydd a'r Fro**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r 'Polisi Sgrinio Ymgeiswyr a Dysgwyr sy'n Gyn-droseddwyr'.

Mehefin 2023

Ein rheolau ar gyfer gwirio pobl sydd wedi'u cael yn euog o drosedd



Rydyn ni am i'n holl ddysgwyr gael eu trin yn gyfartal ac yn deg.



Rydyn ni am gefnogi ein holl ddysgwyr er mwyn iddyn nhw allu cyflawni'r gorau maen nhw'n gallu wrth ddysgu.



Byddwn ni'n eu cefnogi nhw i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw.



Rydyn ni am gefnogi pobl sydd wedi'u cael yn euog o drosedd. Os ydyn ni'n gallu sicrhau nad oes unrhyw un arall yn cael ei roi mewn perygl.



Mae rhaid i ddysgwyr ddweud wrthon ni a oes unrhyw **euogfarnau** gyda nhw.



Euogfarn yw pan fydd rhywun wedi'i gael yn euog o drosedd a bod cofnod troseddol gyda nhw.

Bydd y coleg yn:



- Gwneud yn siŵr bod cynlluniau clir gyda ni ar gyfer sut byddwn ni'n gweithio gyda phobl sydd ag **euogfarnau** troseddol,



- Gwneud yn siŵr bod staff yn cael eu hyfforddi fel eu bod nhw'n deall y cynlluniau a'r rheolau,

Tudalen 3



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod sut bydd ein cynlluniau a'n rheolau yn effeithio arnyn nhw,



- Rhoi cyngor i bobl sydd ag euogfarnau **troeddol**,



- Cofnodi gwybodaeth am y polisi hwn a sut rydyn ni'n delio â phroblemau. A bod yn gyfarwydd â'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfau a chanllawiau,



- Gwirio'r hyn rydyn ni'n ei wneud i wneud yn siŵr ei fod e'n gweithio,



- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n trin pobl yn gyfartal ac yn deg.

Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i:



- Bob dysgwr



- Yr holl staff

- Unrhyw un sy'n gwneud unrhyw waith i'r coleg




- Pob ymwelydd

Deddfau a chanllawiau pwysig mae rhaid i ni feddwl amdany'n nhw:



- Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- Deddf Plant 1989



- Deddf Plant 2004
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Geiriau anodd

Euogfarn

Dyma pryd mae rhywun wedi'i gael yn euog o drosedd
ac mae cofnod troseddol gyda nhw.